Mae'n dda gwybod bod cymorth ychwanegol wrth law

Gwybodaeth ddefnyddiol

Argyfyngau trydanol

Mae gweithredwr eich rhwydwaith trydan yn gofalu am eich cyflenwad trydan. Os bydd argyfwng trydanol neu ddiffyg pŵer yn eich cartref, bydd angen i chi eu ffonio. I gysylltu, ffoniwch EDF ar 0333 200 5100 a byddwn yn rhoi rhif gweithredwr eich rhwydwaith lleol i chi. Fel arall, gallwch ddod o hyd i'r manylion cyswllt yn **edfenergy.com** o dan 'Emergency information'.

Gwasanaethau Cwsmer

Am ymholiadau cyffredinol, ffoniwch **0333 200 5100**.

Nwy yn gollwng neu argyfyngau

Os ydych chi'n arogli nwy neu'n poeni am fater diogelwch nwy, ffoniwch Nwy Grid Cenedlaethol ar **0800 111 999**. Mae gwasanaeth minicom ar gael ar **0800 371 787** a ffôn testun ar gyfer cwsmeriaid ag anawsterau clyw ar **0800 096 2929**.

Gwasanaeth Cymorth Personol

Mae Gwasanaeth Cymorth Personol EDF yn dod â gwahanol wasanaethau ynghyd i helpu cwsmeriaid sydd â'r angen mwyaf. Ewch i **edfenergy.com/pss** i weld sut y gallant eich helpu.

Llinell gymorth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth

Cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **03454 04 05 06**.

R886.01.20.v5

Mae EDF Energy yn enw masnachu a ddefnyddir gan EDF Energy Customers Ltd, Rhif Cof. 02228297 y mae ei Swyddfa Gofrestredig yn 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ, corfforedig yng Nghymru a Lloegr.



Help ychwanegol pan fyddwch ei angen

Eich canllaw cymorth os nad oes gennych nwy na thrydan

EDF

Eich diogelwch chi yw ein blaenoriaeth

Fel y gwyddoch, ymwelodd gosodwr â'ch cartref ar ran EDF yn ddiweddar. Fodd bynnag, tra oeddent yno bu'n rhaid iddynt ddatgysylltu eich cyflenwad nwy a/neu drydan oherwydd mater diogelwch a welsant yn ystod eu hymweliad.


Bydd eich gosodwr wedi egluro'r mater a pha gamau y bydd angen eu cymryd i drwsio hyn. Byddan nhw hefyd wedi cysylltu â'ch gweithredwr rhwydwaith trydan a/neu'r Grid Nwy Cenedlaethol os oedd hyn yn angenrheidiol.

Er mwyn gofalu am rai anghenion sylfaenol, rydyn ni'n cynnig rhai eitemau pwysig i chi a allai fod o gymorth i chi am ychydig - gwresogydd ffan trydan, hob pen bwrdd a lamp gwersylla.

Nid oes rheidrwydd arnom i roi'r rhain i chi ac efallai na fydd cyflenwyr eraill yn gwneud hynny. Ond rydyn ni'n meddwl mai helpu cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd anodd yw'r peth iawn i'w wneud. Ni chodir tâl am yr hanfodion hyn a chi sydd i'w cadw – hyd yn oed pan fydd popeth wedi'i drwsio ac yn ôl i'r arfer.

Gyferbyn fe welwch fanylion am yr hyn sydd ar gael ac ar gefn y daflen hon mae rhai rhifau ffôn defnyddiol a dolenni i wasanaethau defnyddiol.

Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich pecyn hanfodion



Gwresogydd ffan trydan

(gweithredir gan y prif gyflenwad)

Hyd yn oed yn ystod misoedd yr haf gall deimlo'n oer yn y nos. Defnyddiwch y gwresogydd ffan trydan hwn i'ch helpu i gadw'n gynnes pan fydd hi'n oer. Er mwyn caniatáu i wres symud o gwmpas yr ystafell yn effeithlon, peidiwch â rhoi unrhyw beth dros y ffan.



Hob pen bwrdd trydan sengl

(gweithredir gan y prif gyflenwad)

Hyd yn oed gyda'r hob sengl hwn gallwch chi goginio pryd o fwyd da. Cofiwch wneud yn siŵr ei fod wedi'i ddiffodd pan fyddwch chi wedi gorffen coginio er mwyn osgoi unrhyw risg tân.



Lamp gwersylla

(gweithredir gan fatri)

Mae goleuo canhwyllau y tu mewn pan fydd hi'n dywyll yn achosi risg tân. Er mwyn osgoi ichi orfod gwneud hyn rydym yn cynnig lamp wersylla i chi ar gyfer golau pan fyddwch ei angen.